# y dinesydd

Gorff./Awst 1998 PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH Rhif 238

## TRIAWD Y BUARTH

Mae triawd ifanc iawn yn cadw trefn ar fuarth S4C y dyddiau hyn, wrth i dri phlentyn gymryd rhan yn un o drêls hyrwyddo'r Sianel. Maent yn ymddangos yn y darnau sy'n hyrwyddo rhaglenni **Y Sioe Fawr** sy'n dod â holl fwrlwm a lliw Sioe Amaethyddol Cymru yn Llanelwedd i'r sgrîn.

Mae'r trêl, a gafodd ei saethu ar fferm ym Mro Morgannwg, yn dangos y plant yn chwarae gyda fferm deganau mewn sied wair.

Roedd y plant, PADRIG JONES, TEGID ROBERTS a MEGAN WILLIAMS, y tri ohonyn nhw'n hanu o Gaerdydd, wrth eu bodd yn cymryd rhan yn y fideo - ac roedd y cynhyrchydd, Chris Jones, yn gallu cydweithio'n rhwydd â nhw!

"Roedd hwn yn gyfle i hyrwyddo rhaglenni'r Sioe Amaethyddol mewn ffordd ychydig yn wahanol gan ein bod yn defnyddio anifeiliaid plastig a fferm deganau," meddai'r cynhyrchydd Chris Jones. "Roedd gweithio gyda'r plant yn wych a byddwn yn cyflwyno'r holl deganau a ddefnyddiwyd i saethu'r trêl i elusen Tŷ Hafan."

Mae **Padrig Jones** yn ddisgybl 7 oed yn Ysgol Melin Gruffydd, Caerdydd, ac fe ymddangosodd hefyd yn nhrêls Nadolig S4C y llynedd. Ond nid bod yn seren teledu yw ei uchelgais, ond chwarae pêl-droed, gan ei fod yn gefnogwr mawr i Manchester United!



Megan Williams (8), Padrig Jones (7), Tegid Roberts (7)

Mae **Tegid Roberts** wedi ymddangos ar S4C o'r blaen - fel draig goch ar y rhaglen blant Slot Meithrin! Ond dyma'r tro cyntaf inni weld ei wyneb yn iawn ar y teledu.

"Roedd e'n wych cymryd rhan yn y fideo ac yn lot o hwyl bod ar fferm, yn enwedig gan fod nain a taid yn y gogledd yn byw ar fferm hefyd!" meddai Tegid, sy'n dwli ar yo-yos a gemau cyfrifiadurol.

Mae trydydd aelod o'r triawd, **Megan Williams**, yn ddisgybl 8 oed yn Ysgol Mynydd Bychan, Caerdydd.

---

## Canu Mawl ger Goleulong

Nos Iau, 11 Mehefin, a'r haul yn disgleirio ar Fae Caerdydd, daeth tua 100 o bobl eglwysi Cymraeg y brifddinas at ei gilydd i ganu mawl i Dduw yn ymyl yr Oleulong. Arweinydd medrus y canu a'r gerddorfa o blant a phobl ifainc oedd Mrs Eilonwy Rhys Jones ac wrth yr allweddellau yr oedd Mr Euros Rhys.

Cafwyd canu hwyliog iawn a'r cantorion a'r gerddorfa yn cyd-symud yn hapus. Cyflwynwyd yr emynau gan y llywydd, y Parchg Noel Evans. Cawsom neges arbennig o berthnasol gan y Parchg Cynwil Williams a darllenwyd cerdd Gwenallt, 'Yr Eglwysi', yn effeithiol iawn gan y Parchg Ieuan Davies.

Pwysleisiodd y Parchg John Stacey Marks, Caplan Bae Caerdydd, yn ei anerchiad byr mai ein llong ni yw hon a bod croeso i bawb ohonom ei defnyddio hyd yr eithaf er mwyn hyrwyddo ei gwaith fel canolfan Gristnogol.

Noson arbennig o ddymunol a llwyddiannus oedd hon. Llawer o ddiolch i bawb a gymerodd ran. Gobeithio y medrwn drefnu cyfarfod tebyg yn y dyfodol.

**Gilbert a Rhian Ruddock**



Canu Mawl yn y Bae: trefnwyd gan Gyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd *Llun: Robin Griffith*

# Y Dinesydd

**Gorff./Awst 1998, Rhif 238.** **ISSN 1362-7546**
Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan PPS, 139 Station Road, Ystum Taf, Caerdydd, a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Medi at un o'r gohebwyr canlynol erbyn 24 Awst:**

**Newyddion y Fro:** Mr Garwyn Davies, 27 Baron Road, Penarth (Ffôn: 708253).
**Newyddion o'r Eglwysi:** Y Parchedig Gwilym Dafydd, 4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 626811).
**Newyddion Ysgolion Cynradd:** Mr B. D. Harries, 6 Lakeside, Caerdydd (Ffôn: 756562).
**Newyddion Ysgol Glantaf:** Mrs S. E. Williams, 23 Kelvin Road, Y Rhath, Caerdydd (Ffôn:490687).
**Newyddion Chwaraeon:** Mr Thomas Davies, 41 Highfields, Caerdydd (Ffôn/Ffacs: 564540).
**Gweithgareddau Dysgwyr:** Mr Gareth Kiff, Tŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon, Caerdydd (Ffôn: 486469/755475):
**Newyddion Cyffredinol:** Mr W. J. Jones, 46 Heol Crystalwood, Caerdydd (Ffôn: 756282; Ffacs: 758106).

**Anfonwch unrhyw ymholiadau golygyddol at:**
Mrs Linda Thomas, 3 Llwynfedw Gardens, Llwynbedw, Caerdydd (Ffôn: 693302).

**Anfonwch unrhyw sylwadau am ddosbarthu at:**
Mr Robin Jones, 1 Kings Road, Radur, Caerdydd (Ffôn: 842929).

## HYSBYSEBION

Mae'r *Dinesydd* yn ffordd ddelfrydol o hysbysebu ac mae incwm hysbysebion yn hanfodol at gynnal y papur. Dylai pawb sydd am hysbysebu gysylltu â:
Miss Catrin Rowlands, 42 Carling Court, Croes Cwrlwys, Caerdydd CF5 4PH (Ffôn: 01222 598243).

## CYFRANIADAU ARIANNOL

Mae ein trysorydd, Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 7JE (Ffôn: 521325) yn croesawu unrhyw gyfraniad bob amser. Cofiwch fod *Y Dinesydd* yn dibynnu am ei barhad ar gyfraniadau'r sawl sy'n ei ddarllen.

## FFURFLEN CYFRANNU

Amgaeaf rodd o £_________ fel cyfraniad at gynnal *Y Dinesydd*.

Enw: ..........................................................................

Cyfeiriad: ..................................................................

.............................................. Côd Post: ...................

Rhif Ffôn: ..................................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 7JE.

## FFURFLEN TANYSGRIFIO

Amgaeaf danysgrifiad blwyddyn o £15 er mwyn derbyn *Y Dinesydd* drwy'r post yn rheolaidd.

Enw: ..........................................................................

Cyfeiriad: ..................................................................

.............................................. Côd Post: ...................

Rhif Ffôn: ..................................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 7JE.

## Calendr y Dinesydd

**Sadwrn, 25 Gorffennaf-Gwener, 31 Gorffennaf**
Cwrs Haf Cymraeg yn Sain Dunwyd dan nawdd Adran Addysg Barhaol Prifysgol Caerdydd ar gyfer dysgwyr a Chymry rhugl. Manylion pellach: Gwen Awbery (01222-874831).
**Iau, 10 Medi**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd: 'Canu ar y Cyd' (Hywel Griffiths) yn Salem, Treganna, am 7.30 p.m.
**Iau, 17 Medi**
Cylch Cinio Merched Caerdydd: Gwesty'r Phoenix, Llanisien am 7.00 p.m. erbyn 7.30 p.m. Bydd Iona Jones a Lois Davies yn diddanu'r Cylch â'u detholiad arbennig hwy o gerddoriaeth. Manylion pellach: Valmai Evans (612104).
**Llun, 21 Medi**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd: Sgwrs gan yr Athro Sioned Davies ar y testun 'Merched y Mabinogi', yn neuadd Eglwys Minny Street am 7.30 p.m.
**Sadwrn, 26 Medi-Sul, 27 Medi**
Dathlu Gŵyl Fihangel yn Amueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan. Manylion pellach: Siân Hughes neu Geraint Bowyer (573485).
**Iau, 8 Hydref**
Cwlwm Busnes Caerdydd a'r Cylch yn cyfarfod yn Churchills, Llandaf am 6 p.m.: Cyflwyniad ar ran Cyngor Dinas a Sir Caerdydd ar ddyfodol y Brifddinas.
**Iau, 8 Hydref**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd: Cyfarfod Diolchgarwch yng nghapel y Crwys, am 7.30 p.m.
**Sadwrn, 21 Tachwedd**
Eisteddfod Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan. Manylion pellach: Robin Gwyndaf (573428).

*Os ydych am gynnwys digwyddiadau yn y Calendr, anfonwch y manylion at: Dr. E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 2AJ.*

Cofiwch ymweld â safle'r *Dinesydd* ar y We:
**http://ds.dial.pipex.com/town/parade/ow12/**

Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Chyngor y Celfyddydau i'r cyhoeddiad hwn.

## Dramâu'r Brifwyl

Ymhlith y dramâu a lwyfennir yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Bro Ogwr eleni, bydd Cwmni 4Q yn cyflwyno *Clymu Cymyle* gan Ian Staples o nos Fawrth, 4 Awst hyd nos Wener, 7 Awst yn Ysgol Gyfun Pen-coed, am 6.00 p.m. Y cyfarwyddydd yw Menna Price. Manylion pellach: 05898-49741.

Yna, yn yr un ganolfan am 8.00 p.m. o nos Lun hyd nos Sadwrn, cyflwynir Drama Gomisiwn yr Eisteddfod, *Tair* (Michael Povey), gan Gwmni Dalier Sylw.

Mae Theatr Powys yn cyflwyno *Gwin Coch a Fodca* gan Wynford Ellis Owen, ar nos Fercher, Iau a Gwener yr Eisteddfod yng Nghanolfan y Berwyn, Nantymoel. Y cyfarwyddwr yw Mici Plwm. Manylion pellach: 01597-824444.

Cynhelir rhaglen lawn ac amrywiol o ddramâu yn Neuadd y Dref, Maesteg, gan gynnwys perfformiad o *Pont Robat* (Huw Roberts) gan Theatr Crwys, Caerdydd, ar y nos Fercher, ac addasiad John Owen o *Godspell* gan Gwmni Ysgol Gyfun y Cymer ar y nos Sadwrn.

Mae disgyblion Ysgol Gyfun Llanhari yn cyflwyno pum perfformiad o ddrama gerdd newydd yn yr ysgol rhwng nos Wener, 31 Gorffennaf a nos Sul, 2 Awst. Ei henw yw *Sws am Noson* ac y mae'n olrhain hanes grŵp pop yn ne-ddwyrain Cymru a Llundain. Yr awduron yw Ffion Harries, Rhian Wyn Griffiths a John Adrian Jones. Manylion pellach: 01443-237824.

Dymuniadau gorau i Gethin Rees a Shakila Khan ar achlysur eu priodas yn Fflorida, ar 24 Mehefin.

Dymuniadau gorau i'r actores Judith Humphreys (Dr Rachel yn *Pobol y Cwm*) a Dr Jerry Hunter o Adran y Gymraeg, Prifysgol Cymru Caerdydd, ar achlysur eu priodas yn Llandwrog ar 27 Mehefin.

Llongyfarchiadau i T. James Jones ar gyrraedd rhestr fer 'Llyfr y Flwyddyn' â'i gyfrol o farddoniaeth, *O Barc Nest*. Bydd yn trafod *Dan y Wenallt*, ei gyfieithiad o *Under Milk Wood*, mewn gŵyl yng Nghanolfan Dylan Thomas, Somerset Place, Abertawe, ddydd Mercher, 12 Awst, am 7.30 p.m.

Llongyfarchiadau i dri awdur o Gaerdydd, Grahame Davies, William Owen Roberts a Meic Stephens, ar dderbyn ysgoloriaethau i awduron gan Gyngor y Celfyddydau eleni. Mae Grahame Davies yn bwriadu defnyddio cyfnod yr ysgoloriaeth i lunio barddoniaeth, W. O. Roberts i lunio nofel a Meic Stephens i gyfieithu ffuglen o'r Gymraeg i'r Saesneg.

Llongyfarchiadau i Teleri Jones a Delyth Mathias ar eu penodi i staff polisi ac ymchwil Cyngor Defnyddwyr Cymru. Daw Teleri o Aberystwyth yn wreiddiol, a bu'n Uwch Dechnolegydd Gwyddor Bwyd yn Athrofa Prifysgol Cymru cyn ymuno â'r Cyngor Defnyddwyr. Daw Delyth o'r Felindre ger Abertawe. Mae ganddi radd yn y Gymraeg o Brifysgol Caerdydd, a bu'n gweithio yn yr Amgueddfa Werin cyn ymuno â'r Cyngor. Mae Cyngor Defnyddwyr Cymru wedi symud eu swyddfeydd yn ddiweddar i 47 Newport Road, Caerdydd CF2 1WL.

Bydd cyfarfod i lansio Cymdeithas Brodwaith Cymru ym Mhabell y Cymdeithasau yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Ogwr, ddydd Gwener, 7 Awst am 10.00 a.m. Manylion pellach: Joyce Jones (01766-522085).

## Swyddfa Plaid Cymru

Bu seremoni i agor swyddfa newydd Plaid Cymru yn 18 Park Grove ganol Mehefin. Gwahoddwyd Winnie Ewing o blaid yr SNP yn yr Alban i fod yn brif westai. Ar hyn o bryd mae hi'n aelod seneddol Ewropeaidd ond mae'n gobeithio sefyll am sedd yn senedd newydd yr Alban. Enw'r swyddfa newydd yw Tŷ Gwynfor. Roedd Winnie Ewing a Gwynfor Evans yn y senedd yn Llundain gyda'i gilydd yr un pryd ac roedden nhw'n cydweithio'n agos.

## Elusen Marie Curie

Cynhelir nifer o ddigwyddiadau eleni i ddathlu hanner canmlwyddiant sefydlu Elusen Marie Curie sy'n gofalu am y rhai sy'n dioddef canser. Un o'r digwyddiadau oedd cynnal cyngerdd awyr-agored yn y Castell nos Sul, 5 Gorffennaf. Ymhlith y sêr a gymerai ran oedd Peter Karrie, un o sêr *Les Miserables*, sy'n hanu o Lanilltud Fawr, Ria Jones yr actores, a Simon Bowman o Lanedeyrn. Mae e wedi bod yn perfformio yn *Les Miserables*, *Miss Saigon* a *Phantom of the Opera*. Bu Simon Bowman yn mynychu Ysgol Gynradd Springwood ac Ysgol Uwchradd Llanedeyrn.

## Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Tom Thomas, Cathays, ac un o aelodau hynaf Eglwys Dewi Sant ar farw'i frawd yn y gogledd yn ddiweddar. Nes i afiechyd ddod i'w boeni, roedd Tom, gyda'i lais tenor hyfryd yn un o aelodau selocaf y côr.

Llongyfarchiadau i Francesca Flower, naw oed, sy'n ddisgybl yn Ysgol Bro Eirwg, ar ennill lle mewn Acadami Bale yn Covent Garden, Llundain lle bydd hi'n cael gwersi dwys mewn bale bob mis. Cafodd gynnig lle amser-llawn yn yr academi ond oherwydd ei bod mor ifanc penderfynodd ei theulu beidio â manteisio ar y cyfle hwnnw am y tro.

Llongyfarchiadau i Catrin Howkins ar gael ei phenodi'n rheolwraig marchnata a hyrwyddo'r BBC yng Nghymru. Cafodd ei geni a'i magu yn Ninas Powys a mynychodd Ysgol Gyfun Glantaf cyn ennill gradd mewn seicoleg ym Mhrifysgol Cymru, Abertawe.

Llongyfarchiadau i Iwan a Siân Huws (Boobier gynt), Y Felinheli ar enedigaeth Anna Jên. Llongyfarchiadau hefyd i Ann Innes, Yr Eglwys Newydd ar enedigaeth wyres newydd sbon iddi, sef Rachel Elizabeth, merch i Wyn a Kate Innes, Creigiau. Mae Wyn yn un o uwch-swyddogion byd arian S4C.

## Seren byd y bêl gron

Crewyd hanes pan chwaraeodd tîm pêl-droed Cymru yn erbyn Malta ddechrau Mehefin gan mai Ryan Green oedd y chwaraewr ifancaf i chwarae dros Gymru. Mae Ryan yn enedigol o Gaerdydd. Roedd tad Ryan yn arfer chwarae i dîm Casnewydd pan oedd y tîm hwnnw yng nghynghrair yr FA.

## Gwenwch!!

Mae cwmni tynnu lluniau Tempest sy'n arbenigo mewn tynnu lluniau plant mewn ysgolion yng Nghaerdydd a 'r tu hwnt yn dathlu ei hanner canmlwyddiant eleni. Fe'i sefydlwyd gan John Eede yn 1948 gyda phedwar o weithwyr ond erbyn hyn cyfloga bedwar ugain.

## Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina ar daith

Bu Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina i Ferthyr Tudful ar ei gwibdaith flynyddol ddechrau Mehefin gan ymweld ag Ynys-fach, man geni Joseph Parry a'r amgueddfa yng Nghastell Cyfarthfa cyn mynd ymlaen i Ganolfan Natur Garwnant i gael te. Trefnwyd y daith gan Haydn Jones, ysgrifennydd diwyd y Gymdeithas.

## Derwen i gofio

Yn 1989 lladdwyd Helen Thomas, 22 oed, ymgyrchydd yn erbyn arfau niwclear, mewn damwain y tu allan i Ganolfan Niwclear Comin Greenham. Yn ddiweddar plannwyd derwen er cof amdani ger y Deml Heddwch. Arweiniwyd y seremoni gan y Parchedig Douglas Bale, yr Is-arglwydd Faer a'r Cynghorydd Harry Ernest. Roedd Janet Thomas, mam Helen Thomas, yn bresennol a hefyd nifer o ffrindiau a pherthnasau, cynrychiolwyr o'r Mudiad Heddwch, Côr Cochion Caerdydd a Dafydd Iwan a Menna Elfyn.

## Mosaic Bywyd Gwyllt

Yn ddiweddar dadorchuddiwyd mosaic ar faes chwarae Ysgol Pen-cae, Llandaf gan Jonathan Davies, un o rieni'r ysgol. Paratowyd y mosaic gan chwe myfyriwr a disgyblion yr ysgol. Y mae'n portreadu bywyd gwyllt y byd gan ddefnyddio sgwariau bychan o deils o Bortiwgal i greu lluniau.



Meurwyn Williams *Llun: S4C*

## Cofio am Meurwyn

Er ein bod yn gwybod am ddifrifoldeb salwch y Parchedig Meurwyn Williams daeth y newyddion am ei farw yn sioc inni i gyd. Bu aelodau Bethel, Penarth yn eithriadol o lwcus ei gael yn fugail am fwy o flynyddoedd nag a dreuliodd mewn un gorlan arall. Roeddem wedi meddwl trefnu rhywbeth ym mis Mehefin i nodi ei fod wedi bod yn weinidog yr efengyl am bymtheng mlynedd ar hugain a threfnu parti tua diwedd y flwyddyn i ddathlu ei ugain mlynedd ym Methel.


Doedd Meurwyn ddim yn leicio ffws ac er na chawsom gyfarfodydd i'w sefydlu'n weinidog i'n heglwys ymfalchïem o gael dodi ei enw'n amlwg ar yr hysbysfwrdd i bawb gael gwybod pwy oedd ein gweinidog ni. Allai neb ei gyhuddo o fod yn geidwadol; cafwyd sawl newid yn nhrefn ein hoedfaon, am wahanol resymau. Bob tro fe fyddai'n paratoi taflen i'w chadw yn y pulpud ar gyfer pregethwyr fyddai'n ymweld ac er bod nodyn yn dweud wrthynt y gallent anwybyddu'r drefn os dymunent, ni fyddai neb yn gwneud hynny. Roedd pob pregeth a gawson 'da fe'n ffres, diddorol a dealladwy a gwasanaethau'r Cymun yn rhai arbennig iawn. Ym Methel caiff pob plentyn gymryd o'r bara - achos mae'r plant yn rhan o deulu'r Eglwys ac roedden nhw'n bwysig iawn iddo. Roedd e'n sbesial i'r plant hefyd a hyd yn oed yn ei salwch fe fu gyda'r plant yn cael cinio yn McDonalds ac yn chwarae bowlio deg pin.

Roedd ganddo ddawn arbennig i ddefnyddio geiriau, a fyddai ei arddull siarad ddim yn newid pan fyddai'n mynd i'r sêt fawr neu i'r pulpud. Eto, mewn un ffordd roedd yn ddiamynedd. Gwelsai flynyddoedd yn ôl fod angen i ni fel eglwys symud gyda'r amserau; pwy arall fyddai wedi meddwl am Oedfa Gymun awyr-agored ym Mharc Cosmeston, gyda barbeciw yn dilyn? Nid siop siarad a phwyllgora oedd ei ddymuniad ond gwneud rhywbeth. Yn anffodus mae'n syndod pa mor ddall y gall rhai pobl fod wrth ystyried bod newid yn fygythiad yn hytrach nag yn her neu welliant.

Fe welwn ei eisiau ym mhob agwedd ar fywyd yr eglwys - roedd hyd yn oed yn gadeirydd y Pwyllgor Adeiladau ac mae hwnnw wedi bod yn brysur iawn yn ystod yr wyth mlynedd a aeth heibio.

Yn Adroddiad Blynyddol Bethel ar ddechrau 1996 rhoddwyd ystadegau: rhif aelodau'r eglwys yn Ionawr 1976 oedd 25. Roedd wedi cynyddu i 51 mewn deng mlynedd, ac yn y degawd canlynol dyblwyd eto. Roedd dyblu bob deng mlynedd yn gamp aruthrol ac i Meurwyn y mae'r diolch am hynny. Er gwaethaf ei duedd i'w ddibrisio'i hunan fel 'gweinidog rhan-amser' bu ei gyfraniad inni yn anferth. Gwasgodd i'w bymtheng mlynedd o weinidogaethu fwy o wasanaeth i'w Arglwydd ac i'w gyd-ddyn nag a wna'r rhan fwyaf mewn oes llawer hwy.

I Carys, Non a Sara, 'Diolch yn fawr ichi' oddi wrth eich cyd-aelodau am fod mor amyneddgar atom ar hyd y blynyddoedd pan fyddai ein gofidiau teuluol ni i gyd, pob salwch - a phob achlysur o lawenydd hefyd - yn ei ddenu oddi wrthych chi'ch tair, am ei fod mor gydwybodol yn ei waith bugeiliol. Fe wnaethom ddwyn llawer o'ch amser hamdden teuluol chi, a gobeithio y maddeuwch inni am ein hunanoldeb. Ar ran pob eglwys y gwasanaethodd Meurwyn ynddi, diolch i Dduw am yr anrhydedd. 'Collwyd brawd, a ffrind a chyfaill, ac fe'i collwyd cyn ei ddydd'.



**Rowland Owen**

## Clwb Chwaraeon Menter Caerdydd

Mae Clwb Chwaraeon Menter Caerdydd yn dal i apelio am wirfoddolwyr brwd, ymroddedig, ac o bosibl heini (er nad yw'r ola'n angenrheidiol) i helpu i sefydlu a rhedeg clwb chwaraeon ar gyfer Cymry Cymraeg y brifddinas. Y bwriad yw cynnig yn rheolaidd ystod eang o weithgareddau fel sboncen, tennis, rygbi a phêl-droed pump bob ochr, clwb cerdded ac ati i aelodau'r clwb a hynny'n gyfan gwbl trwy'r iaith Gymraeg. Os ydych yn meddwl y gallwch chi helpu, neu os carech gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Dafydd Bridle, 24 Clos Nant y Cor, Pontprennau, Caerdydd CF2 7LD (736600) neu Guto Rhys, 36 Heol Clive, Treganna, Caerdydd CF5 1HJ (223262).

## Awdur o Gaerdydd ymhlith y sêr

Yn ddiweddar yn Siop Lyfrau Oriel, lansiwyd llyfr barddoniaeth newydd y bardd o Gaerdydd, Gwyneth Lewis. Llyfr o farddoniaeth Saesneg ydyw *Zero Gravity*, a ysbrydolwyd yn rhannol gan ei chefnder, Joe Tanner, Danville, Illinois, yn mynd i'r gofod i atgyweirio telesgop Hubble, ac yn rhannol hefyd gan farw disyfyd ei chwaer-yng-nghyfraith, Jaqueline Badham o ganser. Cymraeg yw iaith gyntaf Gwyneth ond mae'n un o'r ychydig feirdd sy'n gallu ysgrifennu'n greadigol yn llwyddiannus yn y Gymraeg a'r Saesneg. Cafodd ei geni yn y brifddinas a chafodd ei haddysg gynnar yn Ysgol Uwchradd Rhydfelen. Ar hyn o bryd mae'n gynhyrchydd teledu gyda'r BBC.

Cyhoeddir *Zero Gravity* am £6.95. Eisoes mae'r llyfr nodedig hwn wedi ennill y 'Poetry Book Society Recommendation'. Dyma a ddywedodd eu beirniad nhw: 'Gwyneth Lewis is a Welsh poet who brings a generous spirit and bright intelligence to each idea and situation she encounters or invents. *Zero Gravity* ambitiously interweaves a space journey undertaken by her cousin with the internal voyage through sickness to death of another relative.' Mae llawer yn proffwydo y bydd Gwyneth yn dod i'r brig yn un o brif gystadlaethau'r Eisteddfod Genedlaethol yn y man.

Yn ystod yr un noson, darllenodd David Greenslade o Dreganna, Caerdydd a William Brown o Toronto, gerddi a gynhwysir yn *March*, llyfr project a gynhyrchwyd ar y cyd ganddyn nhw, gan i'r ddau deimlo mai peth da fyddai cynhyrchu rhywbeth arbennig ar gyfer Eisteddfod Bro Ogwr. Yn ôl Hywel Teifi Edwards, sydd wedi ysgrifennu broliant i'r llyfr, mae'r llyfr yn gamp dau artist 'sy'n rhoi cyfle i ni weld Cymru o'r newydd.'

## Coleg Normal Bangor - Aduniad Neuadd Fenai

Braf fyddai gweld unwaith eto'r hogiau a ddechreuodd eu cwrs yn y Neuadd ar lan Afon Menai ym mis Medi 1948. Cysyllter â mi - Thomas Davies, Penychen, Highfields, Llandaf, Caerdydd (Tel/Ffacs: 01222 564540) - ynglŷn â threfnu aduniad ar ôl hanner can mlynedd.

# Newyddion o'r Eglwysi... dan ofal Gwilym Dafydd

## BETHEL, RHIWBINA

Trefnwyd taith gerdded noddedig o amgylch llyn Parc y Rhath gan aelodau ac athrawesau'r Ysgol Sul. Codwyd tua £200 i'w rannu rhwng Apêl Swdan a chronfa NCH, Gweithredu dros Blant Cymru. Mae'r plant i'w llongyfarch am ddangos eu cefnogaeth i'r elusennau hyn a diolch i bawb fu'n eu noddi.

**Llongyfarchiadau** hefyd i Mair Owen, Llandaf, am gael ei dewis yn Wirfoddolwraig y Flwyddyn, De Cymru, gan fudiad Gwasanaeth Gwirfoddol y Merched, y WRVS.

## MINNY STREET, CAERDYDD

**'Sylw i Swdan'**: bu'r aelodau yn parhau â'u hymdrechion tuag at yr apêl hon fore Sadwrn, 6 Mehefin, gyda nifer yn cymeryd rhan mewn arwerthiant cist car ym marchnad agored y Sblot. Gymaint fu'r mwynhad a'r llwyddiant fel iddynt fynd yn ôl bythefnos yn ddiweddarach hefyd! Yna ar y nos Sadwrn, cynhaliwyd cinio, ocsiwn ac adloniant gyda'r trefnwyr wedi sicrhau nifer o eitemau arbennig iawn i'w gwerthu - megis copi o eiriau 'Cân Swdan' yn llawysgrifen yr awdur, y Parchg John Gwilym Jones, a'r gân 'Hawl i Fyw' yn llawysgrifen Dafydd Iwan. Edrychwn ymlaen i'r seiclo noddedig i Gastell Coch ddechrau Gorffennaf a ddaw â'n cyfanswm i £6,000.

**Llongyfarchiadau** i Elizabeth Helen Gregory ar ei phriodas â James Tazio Beynon ym Minny Street b'nawn Sadwrn, 6 Mehefin.

**Gwibdaith y Gymdeithas**: wedi cinio cynnar b'nawn Sadwrn, 13 Mehefin, aeth dros ddeugain o ffrindiau'r Gymdeithas ar drywydd rhai o emynwyr Sir Gaerfyrddin. Fel arfer, roedd Havard a Rhiannon Gregory wedi paratoi'n drylwyr ar ein cyfer gan sicrhau nifer o siaradwyr i'n goleuo ar y ffordd! Wrth deithio drwy Sir Frycheiniog cawsom glywed am rai o emynwyr y sir honno gan Mr Iwan Jones, ac am nodweddion tafodiaith y sir gan yr Athro Glyn Jones. Yna, a ninnau wedi teithio rhyw 70 milltir o Gaerdydd, dyma gyrraedd Crug-y-bar a chael hanes Dafydd Jones o Gaeo gan y Parchg Huw Ethall. Cyfle i ymweld â'r Capel Annibynnol yno gyda'r gofeb i Dafydd Jones. Wedyn, te yn ysblander Glanrannell gerllaw. Ymlaen i Dalyllychau ac i'r Eglwys ger yr abaty i weld bedd Tomos Lewis (ynghyd â bedd Dafydd ap Gwilym!) yr oeddem eisoes wedi cael ei hanes gan y Parchg Ieuan Davies. Yna i Lanfynydd i ymweld â bedd Morgan Rhys ym mynwent yr Eglwys cyn gwrando ar ei hanes yng Nghapel y Spite gerllaw gan y Parchg Gwilym ap Robert. Dychwelyd i Gaerdydd wedi cael diwrnod i'w drysori - diolch i'r trefnwyr, y siaradwyr a'r cyfeillion yn Sir Gâr am ei croeso arbennig.

## EGLWYS EBENESER, CAERDYDD

**Taith yr Ysgol Sul**

Ar fore Sadwrn, 13 Mehefin, aeth llond bws o blant yr Ysgol Sul a rhai o aelodau'r eglwys ar daith i Barc Oakwood am y diwrnod. Er ei bod hi'n glawio'n drwm yr holl ffordd yno, mi ddiflanodd y glaw yn syth wedi cyrraedd. Mentrodd rhai ar y Megaphobia a'r rhai dewraf ar y Vertigo hefyd, gyda'r deugain a aeth ar y daith i gyd yn dychwelyd yn saff i Gaerdydd fin nos.

**Apêl 'Sylw i Swdan'**

Bu aelodau Eglwys Ebeneser wrthi'n ddiwyd ers dechrau'r flwyddyn yn casglu arian tuag at apêl Undeb yr Annibynwyr eleni, sef 'Sylw i Swdan'. Caewyd y gronfa yng nghyfarfodydd yr Undeb yn Nolgellau ganol mis Mehefin a chyfanswm cyfraniad Eglwys Ebeneser oedd £3,500.

## PERTHNASEDD CYMRU I EWROP

Mr Stephen Thomas, Cyfarwyddwr Canolfan Gymreig Materion Rhyngwladol yn y Deml Heddwch oedd y siaradwr yng nghyfarfod Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd yng nghapel Gwaelod-y-garth nos Iau, 14 Mai. Cafwyd ganddo ymdriniaeth fanwl ac eang â'r testun hollbwysig dan sylw. Ar hyn o bryd nid oes gan Gymru lawer o lais annibynnol yn Ewrop, a phwysleisiodd y siaradwr pa mor bwysig fydd y cyfle a gaiff Cymru yn y dyfodol i fod yn rhan o Ewrop ac i ddylanwadu arni yn ei ffordd arbennig ei hun.

Er na roddodd Mr Thomas sylw i grefydd fel y cyfryw, dangosodd y gallai Cymru, fel Iwerddon, Llydaw a Fflandrys hwythau, elwa mewn amryw ffyrdd o'r cysylltiad Ewropeaidd. O ran dwyieithrwydd, er enghraifft, mae Cymru yn debycach i rai o wledydd y Cyfandir nag yw hi i Loegr, a hysbys ddigon yw'r modd y mae manteision economaidd ac amaethyddol yn tarddu o'r berthynas ag Ewrop. Bydd raid gwerthu cryfderau Cymru i Ewrop a diau y bydd cael Cynulliad yn gymorth mawr yn hyn o beth.

Tybed a fydd nesáu at Ewrop yn dod â buddiannau i'n bywyd crefyddol? Er bod rhai yn teimlo fod perygl i ni gael ein llyncu gan y gyfundrefn Ewropeaidd, cred eraill fod cysylltiad agos a hanesyddol rhyngom ni fel Cristnogion â llawer o eglwysi'r Cyfandir, ac y bydd hyn yn sicr o ddwyn ffrwyth yn y blynyddoedd sydd i ddod.

Diolch o galon i Mr Thomas am ei anerchiad meistrolgar. Ni wnaethom uchod ond prin gyffwrdd â chyfoeth ac amrywiaeth ei sylwadau. Diolch hefyd i'r Parchg Noel Evans am lywyddu'r noson yn ei ffordd ddihafal ei hun.

**Gilbert a Rhian Ruddock**

Os gallwch chi ddarllen hwn gallwch ddarllen

y cymro

Y papur newydd cenedlaethol, wythnosol, a fydd ar ei newydd wedd yn yr Eisteddfod Genedlaethol fis Awst.

Trefnwch danysgrifiad dros y ffôn yn awr drwy gysylltu â Clair Homes ar 01352 707707.

**Y Cymro**

*Y papur modern sy'n rhan o'n traddodiad*

Y Cymro, Parc Busnes, Yr Wyddgrug, Sir Fflint

# YSGOL GLANTAF

## Athletau

Llongyfarchiadau i Simon Bull, blwyddyn 10, ar ei lwyddiant ym myd yr athletau. Daeth yn drydydd yng nghystadleuaeth pentathlon Ysgolion Cymru a gynhaliwyd yn Stadiwm Lecwydd. Simon oedd yn fuddugol yng nghystadleuaeth y ddisgen mewn cystadleuaeth i ysgolion Cymru a gynhaliwyd yn Wrecsam yn ddiweddar. Bydd ef yn awr yn cynrychioli Cymru yn yr Alban mewn cystadleuaeth i Ysgolion Prydain. Dymunwn yn dda iddo.

## Glantaf i Zimbabwe

Cynhelir Pencampwriaeth Rygbi Ysgolion y Byd eleni yn Zimbabwe, De Affrig ac ar ôl wythnosau o ymarfer cyson a chaled mae'r daith wedi cyrraedd o'r diwedd i fechgyn Glantaf.

Fe fydd tîm dan 18 oed yr ysgol ynghyd â thri aelod o staff, Mr Huw Llywelyn, Mr Dai Williams a Mr Trystan Edwards, sydd wedi hyfforddi'r tîm, yn gadael Caerdydd ar 25 Gorffennaf.

Mae'r bechgyn yn ddigon ffodus i gael y fraint o gynrychioli eu gwlad er bod yna dri thîm arall o Brydain yn cystadlu, sef Ysgol Colestons o Fryste ac ysgolion o Ddulyn a Belfast.

Bydd y garfan o 22 gan gynnwys y capten Hywel Jones yn chwarae yn erbyn Ysgol Tywysog Edward ddydd Mercher, 29 Gorffennaf ac yn erbyn Ysgol Uwchradd Highland ddydd Iau, 30 Gorffennaf. Os ceir llwyddiant yn y gemau uchod mae'n bosib y cânt gyfleoedd niferus i chwarae eto.

Enillwyd capiau i Gymru dan 16 oed gan Geraint Williams, Nicky Robinson a Tom Roberts, ond Geraint Williams yn unig fydd yn mynd ar y daith. Enillodd Rhodri Williams a fydd yn mynd ar y daith, gap i Gymru dan 18 oed. Dymunwn bob llwyddiant i'r tîm.

**Bethan Nia, Nia Thomas a Heledd Havard**

## Agoriad Swyddogol y Labordai

Fore Gwener, 26 Mehefin cynhaliwyd agoriad swyddogol y Bloc Labordai sy'n cynnwys deg labordy newydd sbon. Agorwyd yr adeilad gan Peter Hain, A.S., Is-ysgrifennydd Seneddol Cymru, a dadorchuddiwyd plac ganddo i nodi'r achlysur.

Cafwyd gair o groeso gan y prifathro, Mr Huw Thomas a bwysleisiodd mai dathlu tri pheth a wnaed y bore hwnnw, sef yn gyntaf agoriad y labordai, yn ail llwyddiannau gwyddoniaeth a gwyddonwyr ac yn drydydd twf addysg Gymraeg. Enwir y deg labordy ar ôl gwyddonwyr enwog megis Michael Faraday, Isaac Newton, Marie Curie, yn ogystal â Chymry enwog yn y maes megis Dyfrig Jones a John Meurig Thomas.

Cafwyd araith fer gan Mr Peter Hain hefyd pan bwysleisiodd ei werthfawrogiad o gyfraniad arbennig athrawon.

Diddanwyd y gwesteion gan gôr yr ysgol uchaf a chôr o delynorion.

## Tennis



Cynhaliwyd Pencampwriaeth Tennis y Sir yng nghanolfan y Metropolitan yn ddiweddar. Ysgol Glantaf oedd yn fuddugol yng nghystadleuaeth Sengl a Dwbl y merched dan 13 oed. Elinor East a enillodd y gystadleuaeth Sengl ac Alex Francis a Carys Osborne oedd yn fuddugol yn y gystadleuaeth Ddwbl. Dyma'r tro cyntaf i'r ysgol ennill y ddwy gystadleuaeth. Llongyfarchiadau mawr i'r merched.

## Glantaf i Montreal



Holly Rivers

Llongyfarchiadau mawr i Holly Rivers o flwyddyn 10 Ysgol Glantaf ar gael ei dewis i chwarae rhan mewn cynhyrchiad o addasiad o'r llyfrau plant *The Adventures of the Worst Witch* gan Jill Murphy. Mae'n debyg i Holly gael ei dewis allan o tua 2,000 o ferched.

Bydd y gyfres deledu hon yn cael ei darlledu ar y cyd rhwng HTV a Global Productions. Ar hyn o bryd mae'r ffilmio'n digwydd yn Twickenham Studios ond yn yr hydref bydd y ffilmio yn symud am fis i Montreal. Pob hwyl i Holly. Bydd ei ffrindiau i gyd yng Nglantaf yn edrych ymlaen yn fawr at y gyfres.



## Halen y Ddaear

Ddiwedd tymor yr haf daeth diwedd cyfnod yn Ysgol Glantaf. Ers 12 mlynedd mae blynyddoedd 7 ac 8 wedi derbyn eu haddysg ar safle Glantaf Isaf yn Nhyllgoed. Ym mis Medi fodd bynnag yr adeilad hwn fydd cartref newydd ail ysgol uwchradd Gymraeg y ddinas - Ysgol Plasmawr.

Y dirprwy a fu'n bennaf gyfrifol am flynyddoedd 7 ac 8 yn ystod y blynyddoedd hyn oedd **Mrs Marian Wynne** a chafodd y disgyblion sylfaen gadarn i'w haddysg uwchradd o dan ei gofal caredig a chadarn.

Enwebwyd Mrs Wynne yn 'Halen y Ddaear' a daeth uned ffilmio'r rhaglen *Heno* i gyflwyno plât a basgedaid o flodau iddi.

Dymunwn yn dda iddi yn awr wrth iddi ymgartrefu ar safle Glantaf Uchaf - Ysgol Glantaf o fis Medi ymlaen. Dymunwn bob llwyddiant hefyd i Ysgol Plasmawr ac i'r athrawon o Ysgol Glantaf a gafodd eu penodi i swyddi yn yr ysgol newydd. Dymunwn yn dda hefyd i'r athrawon eraill sy'n ymadael â Glantaf - rhai yn mynd i ysgolion eraill a rhai yn mynd i fwynhau ymddeoliad.

# EIN HYSGOLION CYNRADD CYMRAEG

**dan ofal B.D. Harries**

## ADRODDIAD SPAEM AR YSGOL Y WERN

Mae SPAEM wedi ysgrifennu adroddiad clodwiw ar gyflawniadau addysgiadol Ysgol y Wern.

Agorir adran y Prif Ganfyddiadau gyda'r datganiad, *'Mae Ysgol y Wern yn darparu addysg dda iawn. Mae safonau cyflawni'r disgyblion o bob oed yn dda neu'n dda iawn ar draws y cwricwlwm.'*

Ceir cyfrannedd uchel o addysgu da drwy'r ysgol. Barnwyd bod yr addysgu yn dda neu'n well mewn tua 95% o'r dosbarthiadau a arsylwyd, ac roedd yn dda iawn mewn dros 30% ohonynt. *'Mae'r cyfraneddau hyn yn anarferol o uchel. Mae ansawdd addysgu yn dda iawn ar draws yr ysgol.'*

Mae'r adroddiad yn mynd ymlaen i ddweud, *'Ceir cyfran uchel iawn o addysgu da a chyfran anarferol o addysgu da iawn ym mhob blwyddyn ac ar draws pob pwnc...Mae'r ystadegau hyn yn anarferol.'*

Caiff yr ysgol ei harwain yn dda iawn gan y Pennaeth, Mrs Glesni Whettleton, yr Uwch Dîm Rheoli a'r Corff Llywodraethol. Mae rhieni yn gefnogol iawn i'r ysgol ac mae hyn yn arwydd o falchder y teuluoedd yn eu hysgol ac yn ernes o'r ymddiriedaeth a roddir yn y Pennaeth a'r holl staff.

Nodwyd gan y tîm arolygu fod y disgyblion a ddaw o gartrefi di-Gymraeg yn cael cymorth perthnasol ac yn gyffredinol yn cyrraedd yr un safon â siaradwyr Cymraeg o oedran cynnar. Cyflwynir disgyblion yn ffurfiol i Saesneg tua diwedd Cyfnod Allweddol 1 ac mae'r safonau cyflawniad yn dda iawn. Rhoddir blaenoriaeth i sicrhau fod y disgyblion yn gallu gweithio'n hyderus yn y ddwy iaith.

Mae safonau cyflawniad yn dda iawn ym mhob cyfnod allweddol yn: Y Gymraeg, Mathemateg, Gwyddoniaeth, Hanes, Cerddoriaeth, Addysg Grefyddol ac Addysg Gorfforol. Mae safonau yn dda ym mhob cyfnod allweddol yn: Dylunio a Thechnoleg, Technoleg Gwybodaeth, Daearyddiaeth a Chelf.

Teimla'r disgyblion yn hapus a sicr mewn awyrgylch gynhaliol ac ysgogol. Mae agweddau a sgiliau'r disgyblion fel dysgwyr annibynnol yn dda iawn yn ogystal â'u datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol a chymdeithasol. Disgwylir safonau moesol da ac fe'u cyflawnir. Mae ymddygiad yn dda iawn, ac mae'r disgyblion yn gwrtais a siriol wrth ei gilydd, wrth y staff ac wrth ymwelwyr.

Mae partneriaeth yr ysgol gyda rhieni, y gymuned, ysgolion a sefydliadau eraill a chyda diwydiant yn dda. Gweithia'r athrawon yn dda fel tîm a chryfder pennaf yr ysgol yw'r cydblethu cyflawn yn y cynllunio ar gyfer addysgu ac asesu. Mae'r ysgol yn rhoi gwerth da iawn am ei harian.

Awgryma'r tîm arolygu: *'Er mwyn cynnal ethos da iawn yr ysgol a chynnal y safonau cyflawniad uchel gan y disgyblion yn gyffredinol, dylai'r ysgol barhau'r polisïau a'r gweithdrefnu presennol.'*

Hoffai'r Corff Llywodraethol longyfarch holl staff, disgyblion a rhieni am yr adroddiad ardderchog.



Rhai o blant Ysgol y Wern *Llun: Robin Griffith*

## Y SAER NODAU

Dros y 15 mlynedd diwethaf, bu wyneb DAFYDD SAER yn un digon cyfarwydd ar lwyfannau yng Nghymru yn chwarae i fandiau roc a blws - ond bellach mae ganddo gynlluniau i wneud ei farc fel cerddor gwerin.

Yn ***Y Clwb Gwerin*** ar S4C ddydd Sul, 28 Mehefin, yr oedd Dafydd (gitâr) ynghyd â Jonathan Shorland (ffliwt/pibau) a'r ffidlwr o Grymych, Henry Sears yn perfformio sesiwn fer. Ac yr oedd yr ymddangosiad hwn yn ddechrau cyfnod cyffrous o weithgaredd i Dafydd a fydd yn mynd ag e' i ŵyl fawr yn Siapan, gwyliau gwerin yn Lloegr ac ar deithiau i Lydaw ac Iwerddon.

Cafodd Dafydd ei ddewis i gynrychioli Cymru yng ngŵyl UK '98 yn Tokyo. Fe fydd Dafydd a Jonathan Shorland yn chwarae ar lwyfan yn gyson dros dri diwrnod ym mis Awst fel rhan o dridiau Cymru yn yr ŵyl. Mae wrthi'n trefnu gigs yn Tokyo gyda'r nos hefyd.

"Rwy'n edrych ymlaen at fynd yno i gynrychioli Cymru, yn enwedig gan fod cynulleidfa fawr bosib i fiwsig gwerin Cymreig yn Siapan. Mae disgwyl y bydd 30 mil o bobl yn ymweld â'r ŵyl yn ystod y tri diwrnod, felly fe fydd yn llwyfan perffaith i gerddoriaeth werin Cymru."

Bu cerddoriaeth werin yn agos iawn at galon Dafydd erioed. Mae ei dad, D Roy Saer, yn cael ei ystyried yn un o brif arbenigwyr canu gwerin Cymru ac yntau a eginodd ddiddordeb Dafydd mewn miwsig gwerin. "Roeddwn i'n ffan mawr o fandiau fel Steeleye Span ac o Alan Stivell yn y 70au, ac Ac Eraill, Hergest a chaneuon acwstig Edward H Dafis. Dwi wastad wedi moyn chwarae mewn grwpiau gwerin ers hynny ond tan yn ddiweddar, dyw'r cyfle ddim wedi codi yn aml iawn," meddai Dafydd sy'n hanu o Landaf, Caerdydd.

Fe adawodd Dafydd fyd addysg yn 18 oed a gweithio fel cerddor llawn amser proffesiynol am rai blynyddoedd. Bu'n gitarydd bas sesiwn prysur, gan chwarae gyda Dr Hywel Ffiaidd a Derec Brown a'r Racaracwyr ymhlith eraill, cyn dychwelyd i addysg fel myfyriwr aeddfed yng Ngholeg Harlech. Ond hyd yn oed yn y cyfnod 'na, dywed mai "chwarae miwsig acwstig oedd fy nghariad cyntaf i, a dyna pam rwy' wedi dychwelyd i'r byd yna nawr".

Yn ddiweddar, fe gyhoeddodd Dafydd ei gasét cyntaf ar label Fflach, casét sydd eisoes wedi cael ymateb da. Ond ei uchelgais yw chwarae'n llawn amser fel aelod o fandiau gwerin gwahanol - fel mae eisoes yn ei wneud gyda band y ffidlydd o San Clêr, Siân Phillips.

## Enillwyr Cystadleuaeth Llyfrau

Daeth 300 o blant a rhieni o bob cwr o Gymru i Aberystwyth i gymryd rhan yn y Gystadleuaeth Llyfrau a drefnwyd gan y Cyngor Llyfrau.

Roedd 10 tîm yn cynrychioli ysgolion cynradd ac yn cystadlu am darian Dr Dewi Davies. Roedd yn rhaid i'r timau gynnal trafodaethau ar ddau lyfr o'u dewis, yn ogystal â pherfformio rhaglen fer i gyflwyno un llyfr arall o'u dewis.

Yn dilyn cystadlu brwd, dyfarnwyd y wobr gyntaf i Ysgol Pen-cae. Enwau aelodau tîm Ysgol Pen-cae oedd Elen Hughes, Lowri Hughes, Hannah Stephens, Seren Stacey. Yr eilydd oedd Megan Jones.

Erbyn cyrraedd ac ennill y rownd derfynol, roedd y merched wedi trin a thrafod chwe llyfr. "Roedd e'n dipyn o ddarllen," meddai'r merched. Hefyd, cawsant ganmoliaeth uchel am eu cyflwyniad llafar gwych o lyfr arall (cyflwyniad o 5-8 munud i hysbysebu'r llyfr). Cefnogwyd hwy'n frwd gan weddill plant Blwyddyn 6. Paratowyd y plant ar gyfer y gystadleuaeth gan Mr Huw Pritchard a Mrs Sylvia Pryce. Llongyfarchiadau.

Y beirniaid oedd Rhiannon Jenkins, Caerfyrddin a Mari Rhian Owen, Aberystwyth. Nododd y ddwy fod safon y timau yn eithriadol o uchel, gan ychwanegu nad oes raid poeni am brinder actorion ar gyfer y dyfodol, ar ôl gweld y perfformiadau.

Cyflwynwyd y gwobrau gan Dr Dewi Davies, noddwr y gystadleuaeth, a chafodd y plant eu diddori gan un o brif awduron llyfrau plant, T. Llew Jones.




Ysgol Pen-cae, Caerdydd, enillwyr tarian Dr Dewi Davies yng nghystadleuaeth Llyfrau Plant, yn Aberystwyth yn ddiweddar. Yn y llun mae Dr Dewi Davies a'r tîm sef Elen Hughes, Seren Stacey, Hannah Stephens a Lowri Hughes ynghyd â'u hathrawon Mr Huw Pritchard a Mrs Sylvia Pryce.

# Y CAMPAU dan ofal Thomas Davies




## Cant Namyn Pedwar



Pretoria, 27 Mehefin:
De Affrig ... 96 Cymru ... 13

Dylid ei gadael hi yma. Ond gan na fu sôn pan oeddwn i'n ysgrifennu am wir reswm y trychineb, rhaid ychwanegu ychydig o eiriau at y llinell. Beio'r Undeb y bu pawb - corff amaturaidd yn ceisio trefnu gêm broffesiynol, dynion na wyddent y nesaf peth at ddim am lywio'r fath sefydliad ag Undeb Rygbi Cenedlaethol. Nid fy mwriad i yw cefnogi'r sefydliad, oherwydd y mae gwir angen i ddiwygio ei gyfansoddiad yn ddïau, ond gallesid cael gwell canlyniad o lawer ym maes Loftus Versfeld pe buasai ein chwaraewyr yn galetach yn gorfforol: erbyn hyn y maent yn ymarfer bob dydd i'w clybiau neu i'r wlad, ond yr oedd hi'n gwbl amlwg trwy'r tymor nad oeddynt nac yn ddigon nwyfus nac yn ddigon cryf i gystadlu'n erbyn y Ffrancod heb sôn am Seland Newydd a De Affrig. Pe buasai angen diswyddo rhywun cyn ymweld â De Affrig, y swyddog oedd yn gyfrifol am nwyfiant y garfan oedd hwnnw ac nid yr hyfforddwr. Pe byddai gennym y gyfundrefn berffeithiaf yn yr holl gread nid enillasent yn Pretoria, nac yn Twickenham ychwaith.

Nid oedd ein chwaraewyr yn ddigon heini o bell ffordd, ac yr oedd eu diffyg caledwch yn achosi pryder mawr i rai ohonom. Mae'r caledwch meddyliol sy'n hanfodol erbyn hyn yn dibynnu ar galedwch corfforol, ac fe all chwaraewr ymarfer, o gael arweiniad, ar ei ben ei hun a sicrhau ei fod yn heini ac yn galed. Ni ellir rhedeg ar gae rygbi rhyngwladol fel y rhedai chwaraewyr De Affrig ar 27 Mehefin oni fydd nerth corfforol gan bawb yn y tîm. Dylai ein chwaraewyr ni wybod hyn heb i neb ddweud wrthynt: bu'r Crysau Duon yn gwneud y rhan fwyaf o'u hymarfer corfforol ar eu pennau eu hunain ers blynyddoedd, gan ddilyn cyfarwyddyd y swyddog nwyfiant.

Pan ymwelais â Sefydliad y Campau yn Auckland yn ystod ymweliad Cymru â'r wlad yn 1988, cefais yr holl wybodaeth am eu hymarfer gan Paul Fox (dirprwy Jim Blair, Pennaeth y Sefydliad). Rhoddid cynllun ymarfer i bob chwaraewr yn y garfan genedlaethol a'i gyfrifoldeb ef ei hun oedd sicrhau y cyrhaeddai'i nod erbyn diwedd yr amser penodedig - pe na chyrhaeddid y nod hwnnw, ni fyddai bellach yng ngharfan y wlad. Gellid gwneud yr un peth yma heb newid cyfansoddiad yr Undeb: **cyfrifoldeb yr unigolyn yw ei gyflwr corfforol.**

**IOGA - YMLACIO**

Fy fydd dosbarth Ioga yn Gymraeg yn dechrau nos Lun, 28 Medi yn Ysgol Pen-cae, Highfields, Llandaf. Croeso i ddysgwyr Cymraeg, yn ferched ac yn feibion.


Manylion oddi wrth:
Mair Owen (564574), Mary Ings (564571) Enid Lloyd Evans (564794) neu Eirwen Davies (564540).

## Morgannwg

Dywedodd dyn wrthyf ddiwedd y tymor rygbi ei fod yn edrych ymlaen at y tymor criced er mwyn cael anghofio'r gaeaf. Druan ohono - ac ohonof finnau!

Ar ôl ennill y Bencampwriaeth yn Taunton, 20 Medi, y llynedd, pedwerydd o'r gwaelod oedd Morgannwg yn ôl saith gornest eleni - yna daeth y fuddugoliaeth ar faes Pont Trannon yn yr wythfed ornest, a hanner ffordd yr oeddynt ar ôl ennill yr 20 pwynt hynny. Siomedig dros ben oedd eu chwarae rhwng ennill ym Mryste yn yr ornest gyntaf a'r ail fuddugoliaeth: y brif broblem oedd wicedwyr y gwrthwynebwyr, nid y tu ôl i'r wiced ond o'i blaen. Cafodd pedwar ohonynt gant neu fwy, Ripley (Northampton) 209 yn 721 ei sir, Aymes (Hampshire), Rhodes (Caerwrangon) a Nixon (Caerlŷr) - pob un yn fatiad tra gwerthfawr.

Sail buddugoliaeth Middlesex yng Ngerddi Soffia yng Nghwpan Benson a Hedges oedd cant eu wicedwr nhw, Brown, a agorodd y batio. Gall fod record yma, er na allwn ei phrofi. Bu cryn nifer o anafiadau'n amharu ar chwarae'r Sir - collodd Waqar bedair gornest a Steve Llywelyn Watcyn ddwy, ac er na chollodd y capten, Maynard, ond un, fe'i llesteiriwyd gan yr anaf i'w werddyr, a 34 oedd ei sgôr uchaf yn ei 13 batiad cyntaf. Bu raid batio yng Nghaerdydd yn erbyn Swydd Gaerlŷr heb Steve James a gawsai 43 a 152 yn yr ornest flaenorol yn erbyn Swydd Gaerwrangon, o achos iddo gael ei ddewis dros ei wlad yn erbyn De Affrig. Collwyd Robert Croft yntau i dîm Lloegr, ond efe yn unig a gadwodd ei le i chwarae'r ail ornest yn erbyn De Affrig am i James fethu'n llwyr yn ei fatio rhyngwladol. Yn lle James agorodd Wayne Law, y dyn ifanc 20 oed o Lanelli'n erbyn Swydd Caerlŷr a sgoriodd 21 heb fod allan a 25, gan ddangos dawn ddiamheuol pan oedd hi'n anodd sgorio.



Soniais y tro diwethaf am y ddau fatiwr ifainc, Alun Evans a Michael Powell a'u dawn nhw, a da gweld Evans yn cael 27 ym Mryste a 87 yn ei ail fatiad yn Southampton. Dyma sgoriau Powell ar ôl ei gant cyntaf yn Northampton: 43, 79 heb fod allan, 52, 20, 40, 0, 23, 0, a 7 - prawf pendant y disgleiria o hyn allan. 23 oed yw Darren Thomas, a sgoriodd ef 41 yn erbyn Nottingham cyn cael pedair wiced yn y fuddugoliaeth honno: cyn hynny sgoriasai 69 heb fod allan a chipio pum wiced yn erbyn Swydd Gaerwrangon. Mae'r haul ar y bryn o hyd er gwaethaf y cymylau a'i cuddiai ym Mai a Mehefin; Gwlad yr Haf fydd y gwrthwynebwyr olaf eto eleni yn y Bencampwriaeth - tybed a gawn ganu ar ddiwedd honno?

Gwell peidio â sôn am Gynghrair AA - nid anghofio amdano a wneuthum.

## Cymdeithas Cymru-Llydaw
### Bwrlwm Breizh

Cafodd y rhai ohonom sy'n ymddiddori yn iaith a diwylliant Llydaw ddiwrnod wrth ein bodd yng Nghaerdydd ddechrau Mai. Yr achlysur oedd 'Bwrlwm Breizh' : pecyn o wersi Llydaweg yn ystod y dydd, a chyfle i ddawnsio a chymdeithasu mewn 'Fest Noz' wedi hynny. Cymdeithas Cymru-Llydaw oedd yn trefnu'r gweithgareddau.

Roedd tri dosbarth iaith, yn amrywio o safon dechreuwyr rhonc i'r rhai sy'n rhugl, dan ofal Jeremy Evas, Guto Rhys ac Iwan Humphries. Wedi'r gwersi, fel gwrthgyferbyniad llwyr, cafwyd gweithdy dawns - rhagflas o'r 'Fest Noz' - cyn cloi'r diwrnod gyda sgwrs a sioe sleidiau hynod ddiddorol gan Brigitte Kloareg ar wisgoedd a rhai o draddodiadau eraill Llydaw.



'Bwrlwm Breizh' Cymdeithas Cymru - Llydaw *Llun: Robin Griffith*



'Bwrlwm Breizh' Cymdeithas Cymru - Llydaw *Llun: Robin Griffith*

Roedd yn ddiwrnod prysur i Brigitte gan ei bod eto yn canu 'Kan ha Diskan' (dull Llydewig o ganu ac ateb rhythmig, sy'n aml yn gyfeiliant i ddawnsio) gyda Katell ei merch yn y 'Fest Noz'. Daeth nifer o gerddorion lleol hefyd at ei gilydd i ganu tonau Llydewig ar gyfer y dawnsio: fe'u gwelir yn y llun (o'r chwith i'r dde: Huw Jones, Peter Stacey, Guto Dafis a Michael Harvey). Diolch i Michael, roedd cyfle hefyd i lonyddu yn ystod y noson, wrth wrando arno'n adrodd chwedl Lydewig.

Bydd y Gymdeithas yn weithgar iawn yn ystod Eisteddfod Bro Ogwr eleni. Trefnir dwy ddarlith (y naill ar y dydd Llun gan Iwan Humphries ar enwau lleoedd Llydaw, a'r llall gan Twm Morys bnawn Mercher), gweithdai dawnsio Llydewig, a bydd Michael Harvey yn adrodd chwedl ar y 'Bandstand' ganol dydd Llun.

Nos Iau, 6 Awst, bydd 'Fest Noz' yng Ngwesty'r Maendy, Pen-coed, sy'n hawdd iawn i'w gyrraedd o Faes yr Eisteddfod. Mae band ifanc o ogledd Llydaw, 'Ruz Tan', yn dod draw i gynnal y noson. Gobeithio y bydd hyn yn denu sawl un sydd â diddordeb yn Llydaw, ei cherddoriaeth a'i dawnsfeydd.

Os hoffech gael mwy o fanylion am weithgareddau'r Gymdeithas (gan gynnwys gwersi Llydaweg), pob croeso i chwi gysylltu â Siân Gruffudd (01222 345791) neu Guto Rhys (01222 223262).

**Siân Gruffudd**

## Nosweithiau Cymdeithas yr Iaith yn Eisteddfod Bro Ogwr

Dyma restr o nosweithiau Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn ystod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol.

**Nos Sadwrn**
1. Dafydd Iwan, Ail Symudiad, Ffuzzy Duck

**Nos Sul**
2. Bob Delyn, Strabs

**Nos Lun**
1. Mynediad am Ddim, Ci Du, Dafydd Saer

**Nos Fawrth**
1. Diffiniad, Mr Smith, Nar + cystadleuaeth 'Tarw Taflu'
2. Noson Feirdd

**Nos Fercher**
1. Rêf
2. Meic Stevens, Min Twm Llai, Pozer

**Nos Iau**
1. Rêf (DJ Spank, Tokyu, Tystion, DJ Ian Cottrel
2. Geraint Lovgreen, Strymdingars, Dazzler

**Nos Wener**
1. Big Leaves, Cerrig Melys, Crac, Ecs, Cacen Wy Experience
2. Steve Eaves, Ysbryd Chochen, Anian

**Nos Sadwrn**
1. Geraint Jarman, Anweledig, The Fluff, Hurby

Canolfan 1 - Maes B;
Canolfan 2 - Clwb RAOB Pen-coed

Mae tocynnau am ddim i drefnwyr bysiau:
15 person = 1 tocyn, 30 = 2 docyn, 45 = 3 tocyn ayb.

Unigate

## Unigate Dairies

Beth bynnag yw'r enw ar y fflôt neu'r fan - os yw'n gwerthu llaeth Unigate, r'ych chi'n gwybod eich bod yn cael y llaeth gorau y gallwch ei brynu.

Ni sy'n cynnig y math o wasanaeth drws i ddrws y mae eraill yn anelu ato.

Er mwyn archebu llaeth bob dydd a chynnyrch ffresh o'r llaethdy, ffoniwch:

**01633 682200**

Unigate

**J. A. HUGHES**
**gyda**
**REES WOOD**
**a TERRY**

JHA

A ydych chi wedi cael **damwain?**

Efallai y gallwch hawlio **iawndal?**

Mae'r cyfweliad cyntaf **yn rhad ac am ddim.**

Cysylltwch â Rhys Ll. Thomas
01222 - 666222

# TRYDANWR

**gyda dros**
**20 mlynedd o brofiad**

Prisoedd rhesymol am ailweirio,
gosod systemau larwm
a chawodydd.

Ffoniwch
**Caerwyn Davies**
ar
**01222 868208**
neu **0468 973229**

## Gogledd-Orllewin Llydaw

**Ffermdy wedi'i adnewyddu ar osod.**

Dwy lofft â gwelyau i 4/5. Tua hanner awr i'r gorllewin o Roscoff. Tair milltir o'r môr. £260 yr wythnos. Erys rhai wythnosau'n rhydd eleni: ym Mehefin, dechrau Gorffennaf, Medi a Hydref. Am fanylion ffoniwch Bodawen 01443 791617 ar ôl 4.00 p.m.

# GWERSI PIANO

Gwersi piano trwy gyfrwng y Gymraeg ar gael yng Nghaerdydd.

*Ffoniwch*
**01656 - 880337**
***i siarad ag Elin.***

## DALIER SYLW

**ac EISTEDDFOD GENEDLAETHOL BRO OGWR**

*yn cyflwyno*

# *tair*

*gan*

*Meic Povey*

*Y NAIN - Lisabeth Miles, Y FAM - Betsan Llwyd, Y FERCH - Catrin Powell*

*yn*

**YSGOL GYFUN PEN-COED**

*Nos Lun 3ydd - Nos Sadwrn, 8fed Awst am 8.00 y.h.*

*Tocynnau: £7.00, Plant Ysgol £5.00*
*ar gael o Swyddfa Docynnau'r Eisteddfod*

**01656 657798**

# CYLCH MEITHRIN RHIWBEINA

Festri Capel Bethel, Maes-y-Deri,
Rhiwbeina
*Rhif Elusen: 525471*

Mae llefydd nawr ar gael i blant sydd yn 2 a hanner i fyny at 4 mlwydd oed i ddechrau ym mis Medi 1998.
Am fwy o wybodaeth a manylion pellach am y sesiynau a gynigir cysylltwch â:


**Siân Jones (01222) 610502**

neu

**Delyth Taverner (01222) 692135**

cyn gynted â phosib.

# Ebeneser
# Heol Siarl
# Caerdydd



TuôlM&Sdrosyffordd i'reglwysgadeiriolgatholigalawryffordd o'rC1Agerllawcanolfansiopa DewiSant

Tyrd i ymuno gyda ni yn ein haddoliad a'n gweithgareddau.
Bydd croeso cynnes i ti yn ein plith.

Cyfarfodydd ar y Sul am 10.30 a 6.00.
Ysgol Sul a meithrinfa yn ystod oedfa'r bore.

Eglwys Cris. Beth sydd ei angen? Ti!